Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 2 ar y Bil Tybaco a Fêps

Mehefin 2025

## 1. Y Bil Tybaco a Fêps

### Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Tybaco a Fêps ("y Bil") i Senedd y DU ar 5 Tachwedd 2024.

**2.** Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm Rhif 1")[1] mewn cysylltiad â'r Bil gerbron y Senedd ar 20 Tachwedd 2024. Ystyriodd y Pwyllgor Femorandwm Rhif 1 yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror a gosododd ei adroddiad[2] ar 28 Chwefror 2025.

## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

### Y cefndir

**3.** Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("Memorandwm Rhif 2")[3] ar 4 Ebrill 2025. Cafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor a'r dyddiad cau i gyflwyno adrodd arno oedd 6 Mehefin 2025.

---

[1] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps
[2] Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps
[3] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2

**4.** Ystyriodd y Pwyllgor Femorandwm Rhif 2 yn ei gyfarfod ar 21 Mai 2025.

# 3. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

## Trosolwg

**5.** Gosododd Llywodraeth y DU welliannau yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin sy'n gofyn cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r canlynol:

- Cadarnhau oedran - cynhyrchion tybaco
- Cadarnhau oedran - fêps a chynhyrchion nicotin
- Peiriannau gwerthu cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin
- Arddangos dyfeisiau sy'n gysylltiedig â thybaco mewn siopau neu leoedd ar-lein.

## Barn Llywodraeth y DU am gydsyniad

**6.** Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar gyfer gwelliannau i gymalau 1, 3, 10, 12, 14, 46 ac 48, gan ei bod wedi penderfynu eu bod yn sbarduno proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU.

**7.** Nodwyd bod cymalau 1, 3, 10, 12, 14, 46 ac 48 oll yn sbarduno proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ym Memorandwm Rhif 1.

**8.** Mae'r cymalau hyn fel y'u diwygiwyd, ac eithrio cymal 46 sydd wedi'i ddileu, yn parhau i wneud darpariaeth berthnasol o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Diben y cymalau o hyd yw diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

## Barn Llywodraeth Cymru am gydsyniad

**9.** Ym mharagraff 35 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae Llywodraeth Cymru yn datgan y canlynol:

> *"mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod angen dull gweithredu ledled y DU ar gyfer ymdrin â'r cynhyrchion hyn a bydd yn sicrhau cyfundrefn reoleiddiol*

*gyson ac effeithiol ledled y DU. Rwy'n cefnogi'n gryf gynigion polisi y Bil ac rwyf felly'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad."*

## Ein barn ni

**10.** Mae mwyafrif ohonom yn cefnogi egwyddorion y Bil Tybaco a Fêps i greu cenhedlaeth ddi-fwg, i leihau'r defnydd o dybaco ac i helpu i fynd i'r afael â phroblemau fepio ymhlith pobl ifanc. Fel y cyfryw, nid ydym yn gweld rheswm na ddylai'r Senedd gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn.

**11.** Ni allai un Aelod gefnogi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar sail pryderon am natur tymor hir, 'genedlaethol' y Bil.

**12.** Ar wahân, cofnododd un Aelod o'r Pwyllgor ei wrthwynebiad, mewn egwyddor, i ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru – sef iechyd y cyhoedd, gael ei deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU.

**Conclusion 1.** Nid yw mwyafrif o'r Pwyllgor yn gweld rheswm na ddylai'r Senedd gefnogi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2.